PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Aberystwyth University

Cofnod Seminar ‘Cymraeg 2050’ a’r Cynllun Gweithredu

Royles, Elin; Lewis, Huw

Publication date:
2017

Citation for published version (APA):
Royles, E., & Lewis, H. (2017, Ebr 30). Cofnod Seminar ‘Cymraeg 2050’ a’r Cynllun Gweithredu. Prifysgol Aberystwyth | Aberystwyth University.

Document License
Aneglur 1

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 06. Oct. 2024

Canolfan Wleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru
Centre for Welsh Politics and Society

Cofnod Seminar 'Cymraeg 2050' a'r Cynllun Gweithredu:

Gregynog, 24-25 Ebrill 2017

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Cyd-destun

Ar gais Uned Iaith, Llywodraeth Cymru llywyddwyd y gweithdy hwn gan Dr Huw Lewis a Dr Elin Royles, Canolfan Wleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, WISERD@Aberystwyth. Y bwriad oedd rhoi cyfle i drafod y drafftiau diweddaraf o'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu gyda rhanddeiliaid allweddol dan amodau 'Chatham House'.

Yn ychwanegol at y cyflwyniadau gan swyddogion Llywodraeth Cymru, strwythurwyd tair sesiwn drafod gan y llywyddion yn ystod y seminar fel a ganlyn:

- Sesiwn Drafod 1: Gweledigaeth, Egwyddorion a Themâu
- Sesiwn Drafod 2: Cloriannu nodau'r strategaeth
- Sesiwn Drafod 3: Y Cynllun gweithredu

Mae'r cofnod seminar hwn yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn y sesiynnau unigol. Mae llai o sylwadau ar yr ail sesiwn oherwydd natur yr adborth a dderbyniwyd. Gan y bu swyddogion yn rhan o'r grwpiau gwahanol, gobeithir fod nodiadau defnyddiol wedi eu casglu yn y modd hwnnw.

Sesiwn Drafod 1: Gweledigaeth, Egwyddorion a Themâu

1.1 **Cyflwyniad**

Er mwyn cloriannu negeseuon lefel uchel y strategaeth, strwythurwyd y drafodaeth yn y sesiwn fel a ganlyn:

- Rhoi sylw i'r Datganiad Gweledigaeth am y flwyddyn 2050
- Trafodaeth o'r dair thema strategol
- Trafodaeth o seiliau cysyniadol ac egwyddorion allweddol gan gynnwys: y syniad o newid cymdeithasol; y model cwrs bywyd; y drafodaeth o 'gymunedau/y gymdogaeth' yn y ddogfen; y taflwybr i'r miliwn

1.2 Datganiad Gweledigaeth: prif bwyntiau

- Pwysleiswyd cynnwys y syniad o ddefnydd iaith yn gynnar yn y weledigaeth, fel bod pwyslais ar gynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y cymal ar gynyddu nifer siaradwyr.
- Croesawyd pwysigrwydd cynnwys y rheiny nad sy'n siarad Cymraeg o ran y syniad o 'ewyllys da' tuag at y Gymraeg. Credwyd bod gwerth pwysleisio ymrwymiad dyfnach nag 'ewyllys da' gan symud i syniadau o 'berchnogaeth' neu ewyllys i gefnogi proses o gynyddu defnydd. Cynigwyd adeiladu ar y datganiad bod hon yn iaith i bawb a bod y Gymraeg yn brosiect i bawb.
- Nid yw'r mater o ewyllys da yn y datganiad gweledigaeth wedi cael ei fwydo'n ddigonol i mewn i'r strategaeth ar hyn o bryd.
- Trafodwyd cynnwys cyfeiriad penodol at 'gymunedau dwyieithog' yng nghymal cyntaf yr ail frawddeg (ar ôl 'ymhob agwedd o fywyd') er mwyn pwysleisio pwysigrwydd ardaloedd cymunedau Cymraeg. Arweiniodd hyn at drafod sut mae dehongli cymunedau dwyieithog ac a fyddai sgil-effeithiau negyddol annisgwyl o bwysleisio cymunedau o'r fath o ran lleihau'r uchelgais mewn ardaloedd eraill o Gymru.
- Awgrymwyd rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'r modd mae rhai ardaloedd a grwpiau nid yn unig yn ddwyieithog ond yn amlieithog.

- Tynnwyd sylw at y naratif grewyd ar gyfer rhagair bil cenedlaethau'r dyfodol oedd yn cynnwys y Gymraeg. Roedd yn gyffrous ac yn gallu cael effaith positif. Oedd gwerth mewn cysylltu rhwng y ddau?

Materion eraill:
-Trafodwyd y targed o filiwn. Y prif fater pwysig o hyn oedd yr uchelgais osodai. Fel y pwynt cyntaf uchod, credwyd bod angen adleisio cynyddu defnydd.
-Tynnwyd sylw at werth diriaethol y targed eisoes mewn trafodaethau gyda chyrff cyhoeddus ac adrannau eraill o'r llywodraeth.
- Oes angen rhoi sylw i natur y gynulleidfa o ran terminoleg ac ieithwedd?
- I ba raddau dylai'r datganiad gweledigaeth fod yn greiddiol drwy adlewyrchu cyfeiriad gweddill y strategaeth?
- Mae dwy ddeddf yn cyfeirio at lesiant. A fyddai cyfeirio at hyn yn galluogi pobl i uniaethu gyda llesiant y Gymraeg?

1.3 Y tair thema strategol
Roedd cytundeb ar y cyfan gyda'r tair thema. Y prif faterion yn codi o'r drafodaeth oedd:

- Ceir sylwadau yn benodol yn Thema 3 at rôl y llywodraeth. Fodd bynnag, mae'r nodau'n annelwig ynghylch sut bwriedir defnyddio grym llywodraeth i weithredu'r strategaeth. Rhagwelid y gallai llywodraeth gael effaith aruthrol o ddefnyddio ei grym e.e. o fewn y sector addysg, neu o drawsnewid gweithredu yn y gwasanaeth iechyd, neu o fewn llywodraeth leol. Mae lle i fod yn eglurach ynghylch i ba raddau bydd grym llywodraeth yn cael ei ddefnyddio i symud a newid pethau a sut y gwneid hynny.
- Gellid ystyried newid geiriad thema 3 i adlewyrchu'r trawsffurfiad yr ymgeisir amdano, a symud i 'sicrhau' amodau ffafriol, gan ategu cyfrifoldeb llywodraeth yn gryfach.
- Ydi 'cenedlaethol' yn pwysleisio bod y Gymraeg yn perthyn i bawb ymhob rhan o Gymru, p'un siarad hi ai peidio? Oes modd cyfuno hyn yn rhan o'r weledigaeth?
- Er mwyn cyrraedd y nod o ran y tair thema, mae angen delio gyda'r mater heriol o newid y bri a roddir ar y Gymraeg o fewn y gymdeithas. A oes angen i hyn fod yn nod newydd?
- Mae elfennau o'r strategaeth yn ddibynnol ar brif ffrydio. Mae cwestiynau os ydi'r dull presennol yn gweithio. Oes angen ystyriaeth bellach i sut mae gweithredu'r prif ffrydio?

1.4 Cymunedau / y gymdogaeth
Trafodwyd yr ymgais i daro cydbwysedd rhwng cydnabod pwysigrwydd dwysedd poblogaeth mewn tiriogaeth benodol, i ddelio yn wahanol yn y strategaeth gyda gwahanol 'gymunedau iaith' a hefyd gymryd y cam newydd o roi pwyslais ar newidiadau yn y math o gymunedau mae pobl yn byw a gweithio.

- Croesawyd y symud mlaen i gyfnod newydd o gynllunio ieithyddol drwy'r pwyslais ar daith ieithyddol ac ystyrid bod y dull yma yn cynnig cyfleoedd cyffrous. I rai, roedd hyn yn cydnabod y cymhlethdod o ran sut mae gofyn meddwl am y ffyrdd amrywiol mae pobl yn byw eu bywydau, yn rhyngweithio ac yn defnyddio iaith gan roi'r cyfle i feddwl mwy am y gweithredoedd a'r digwyddiadau mae pobl yn ymwneud â nhw. Mae'n gallu dal y modd mae'r syniad o gymuned yn amrywio, yn enwedig o oedran i oedran.
- Holwyd os oes angen cryfhau'r weledigaeth ddaearyddol o fewn y strategaeth gan gydnabod y cymhlethdodau o sut defnyddir y Gymraeg. Er enghraifft, oes angen mwy o sylw i'r mater o gynllunio gofodol o ran rhanbarthau ac isranbarthau?

- I eraill, roedd consyrn am oblygiadau ymarferol y rhan hon. Cytunwyd bod patrymau bywyd gwaith a chymdeithasol oedolion yn cydfynd gyda phwyslais rhanbarthol y ddogfen a bod gwerth i'r syniad o ranbarthau ieithyddol. Fodd bynnag, awgrymwyd bod cymdeithasoli plant yn digwydd mewn ardaloedd penodol iawn a bod angen cydnabyddiaeth gryfach o seiliau cymdeithasol a ieithyddol. O'r safbwynt hwn, cwestiynid os oedd angen y darn hwn yn y ddogfen. I eraill, roedd lle i ystyried yn bellach y modd mae dwysedd o siaradwyr yn gallu creu siaradwyr Cymraeg.
- Awgrymodd eraill bod angen rhoi sylw gwahanol i'r ddwy fath o ardal a meddwl sut mae'r strategaeth yn mynd ati gryfhau ardaloedd twf a chryfhau ardaloed dwysedd uchel. Yn ôl rhai, yr un heriau sy'n wynebu pob rhan o Gymru ond i raddau gwahanol.

1.5 Y Taflwybr i'r Miliwn

Eglurwyd taw rôl y datganiad yw sicrhau bod modd cymryd uchelgais y miliwn o ddifrif.

Y prif bwyntiau'n codi o'r drafodaeth:

- Codwyd problem gysyniadol gyda'r ystadegau a'r graffiau oherwydd goblygiadau'r data ar nifer y plant sy'n siarad Cymraeg sy'n creu 'mynydd' ar ddechrau cwrs bywyd. Oes data sy'n fwy cywir (e.e. data blwyddyn 2?)
- Cydnabuwyd bod ymatebion rhieni mewn arolygon / cyfrifiad am allu ieithyddol eu plant yn arwydd o ddyhead a balchder a bod gwerth i'r brwdfrydedd hwn.
- Tynwyd sylw at sut oedd y data yn tanlinellu her cyfnod 16-25 oed. Sut mae'r ddogfen yn gallu anelu i greu gwelliant parhaus yn dilyn addysg i gael pobl i weithio yn ddwyieithog? Oes modd ceisio cynnwys y Gymraeg fel sgil allweddol o fewn syniadau o welliant parhaus a chreu gweithlu hyblyg?
- Sut mae sicrhau bod pobl ifanc sy'n mynd drwy'r system addysg yn ddigon rhugl i siarad Cymraeg efo'u plant?
- Credid bod y dybiaeth y byddai 100% o deuluoedd gyda'r ddau riant yn siarad Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn rhy uchelgeisiol.
- Tynnwyd sylw bod y targed hwn ond yn briodol i gynyddu'r niferoedd (Thema 1) ond nad oes targedau ar gyfer yr elfennau eraill. Sut mae mesur bod y Gymraeg yn ffynnu?
- Oes gormod o bwyslais ar rôl y gyfundrefn addysg? Ydi'r galluogydd wedi ei adnabod yn ddigonol yn y strategaeth i sicrhau'r niferoedd yn dewis addysg Gymraeg y mae gofyn amdano yn y strategaeth? Beth yw'r newid sydd ei angen i ysgogi hyn?
- Mae angen cymryd ystyriaeth o effaith lleoliad addysg cyfrwng Cymraeg a chynllunio ar ddilyniant mewn achosion o orfod teithio'n bell i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Sesiwn Drafod 2: Cloriannu nodau'r strategaeth

2.1 Cyflwyniad

Er mwyn cloriannu'r ymdriniaeth o'r nodau allweddol ym mhrif adrannau'r ddogfen, trefnwyd y sesiwn hon fel a ganlyn:

-Trafodaeth gychwynnol ar y themâu strategol a'r nodau allweddol o ran addasrwydd y nodau dan bob thema strategol; y graddau mae'r nodau yn asio ac yn atgyfnerthu ei gilydd; ac i ba raddau bod unrhyw fylchau amlwg a gofyn am ychwanegu nodau eraill.

-Rhannu i grwpiau i drafod nodau unigol, gan drafod tri nod, un o bob thema fesul grŵp. Gofynnnwyd i bob grŵp fwydo nôl ar daflenni a baratowyd.

2.2 Materion yn codi o'r drafodaeth

Ni chwestiynwyd y nodau eu hunain, ond y farn oedd bod modd mirenio'r rhain. Roedd hyn yn cynnwys beth yn union a olygig gan y nod a chynnig mwy o eglurder o'r hyn ydi'r amcan wrth eu cyflwyno fel nod. Yn dilyn o hynny, roedd lle hefyd i fireinio sut mae nod cael ei gysyniadoli yn y drafodaeth.

Rhai materion cysylltiedig oedd bod modd gwneud mwy i gyd-destunoli'r drafodaeth o fewn nod o ran beth sydd wedi digwydd eisioes. Ystyriwyd bod sgôp i gynnwys mwy am beth ydyn ni'n gwybod sy'n gweithio a'r hyn nad sydd yn gweithio eisoes gan felly gydnabod nad yw'r strategaeth yn dechrau o'r newydd ond yn adeiladu ar neu gymryd trywydd gwahanol i'r ymyrraethau sydd eisoes yn cael eu gweithredu.

Elfen arall i'r cyd-destunoli oedd bod lle i osod hyn yng nghyd-destun darnau o ddeddfwriaeth a strategaethau uwch y llywodraeth sy'n dylanwadu ar weithrediad y nodau. Roedd cyd-destunoli hefyd yn cynnwys rhoi sylw i ieithwedd, termau allweddol, sy'n cydfynd gydag agendau'r llywodraeth er mwyn cynnwys arwyddion pwysig o fewn i'r gwasanaeth sifil.

Cwestiwn a ofynnwyd wrth drafod nifer o nodau oedd sut mae hyn yn mynd i weithio yn ymarferol a eglurwyd mewn un cyd-destun fel: 'where is the beef'? Mae gan hyn wrth gwrs oblygiadau ynghylch y berthynas rhwng y strategaeth a'r cynllun gweithredu. A yw'n fuddiol i'r strategaeth gynnig manylder o ran gosod y cyfeiriad a'r camau ymarferol a goblygaidau hynny o ran yr offerynau polisi.

Sesiwn Drafod 3: Y Cynllun gweithredu

3.1 Cyflwyniad

Cyn trafod y cynllun gweithredu fesul thema, anogwyd y cyfrannwyr i ystyried elfennau'r cynllun o ran priodoldeb y camau gweithredu arfaethedig: cyllidol, polisi a deddfwriaethol; a'r graddau mae'r cydbwysedd priodol rhwng y dulliau meintiol ac ansoddol i'r targedau fesul thema. Yn dilyn adborth o'r diwrnod blaenorol, casglwyd dyfyniadau gwahanol o'r Strategaeth ynghylch ffyrdd o flaenoriaethu ond ni dderbyniwyd sylwadau ar y rhain.

3.2 Sylwadau ar Thema 1: Cynyddu Siaradwyr

Prif sylwadau:

- Trafodwyd y bwriad taw Thema 1 fydd y flaenoriaeth ar gyfer y cyfnod cyntaf. Cydnabuwyd y rhesymeg dros y llinell amser i elfennau gwahanol o'r cynllun gael eu gweithredu a phwysigrwydd addysg a'r blynyddoedd cynnar fel maes allweddol ar gyfer datblygiadau pellach. Fodd bynnag, cwestiynwyd hefyd a oes bygythiad drwy roi sylw i gynyddu niferoedd ar draul y sylw i gynyddu defnydd? Yn yr un modd, oedd blaenoriaethu'r thema hon yn mynd i arwain yn y cyfnod cyntaf at strategaeth sy'n dibynnu ar bolisi addysg yn unig? Yn sgil hyn, a fyddai'r blaenoriaethu ariannol yn y blynyddoedd cynnar yn arwain at beidio ymateb i anghenion iaith/economi yn y cadarnleoedd? I rai, roedd yn bwysig bod y cynllun gweithredu yn cael effaith ar draws Cymru. Roedd felly angen ystyriaeth bellach i oblygiadau byw mewn ardal lle mae modd i bawb gael addysg Gymraeg ac anghenion eraill, e.e. ardaloedd fel Gwynedd.
- Yn yr un modd, codwyd goblygiadau Brexit yn newid y cyd-destun ac i ba raddau oedd gofyn ymateb drwy sefydlu elfennau cymdeithasol-economaidd mor gytbwys ag addysg. Ystyriwyd a fyddai'r newidiadau polisi yng nghyd-destun Brexit yn gyfle i ddosbarthu arian mewn ffordd fyddai'n cymryd ystyriaeth o bolisi iaith a diwylliant. Codwyd budd polisiau datblygu newydd fyddai'n arwain at wario arian datblygu economaidd mewn ffordd wahanol.
- Argymhellwyd cael amcanion eglur o ran yr effaith ar adrannau'r llywodraeth a'u galluogi nhw i weithredu, gan o bosib sefydlu amcanion ar gyfer 2021 ar gyfer adrannau gwahanol ayb.

Blynyddoedd cynnar

- Tynnwyd sylw at y gwahaniaeth rhwng camau a fyddai'n datblygu neu'n esblygu'r maes, a'r galw am drawsnewidiad eithaf sylweddol yn y maes i allu gwneud y cyfraniad yn y blynyddoedd cynnar mae gofyn amdano yn y strategaeth. Yn ychwanegol at drefniadau presennol, awgrymwyd bod angen ffyrdd ychwanegol o weithredu ac ymrwymiad llywodraeth gyfan i gyflawni hyn a bod angen bod yn greadigol wrth feddwl am y dylanwadau ac offerynnau polisi newydd. Gall ofyn am weithredu gan Mudiad Meithrin a chyrff eraill hefyd. Pwysleisiwyd sut y gallai creu disgwyliadau ar gyrff eraill fod yn offeryn polisi pwysig.
- Pwysleisiwyd heriau gweithlu sydd wedi ei hyfforddi yn briodol a'r gofyn am gynyddu capasiti a gwell hyfforddiant. O ran cymwysterau, credwyd bod angen maes llafur sy'n cynnwys sgiliau a dealltwriaeth pedagogaidd priodol ar gyfer y cyd-destun cyfrwng Cymraeg i ofal plant megis dulliau trochi i hwyluso caffael iaith. Ystyriwyd bod cryfhau ansawdd y gweithlu yn berthnasol ar gyfer pob rhan o Gymru.
- Codwyd datblygiadau eraill y tu allan i strategaeth y Gymraeg ble gall ymyrryd effeithio ar gyd-destun y strategaeth, sef y polisi o dreblu gofal plant am ddim o 10-30 awr yr wythnos. Eglurwyd y byddai rhieni'n debygol o ddewis darpariaeth cyfrwng Saesneg os nad yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael ac y byddai cynllunio gwell yn creu dilyniant addysg mwy effeithiol.

- O ran y targedau, awgrymwyd bod lle i ganolbwyntio ar osod seilwaith y Cylchoedd Meithrin yn hytrach na deilliant niferoedd i sicrhau mwy o gynydd yn y pum mlynedd nesaf.
- Awgrymwyd y byddai budd cael targedau gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol er bod heriau o drosglwyddo targed cenedlaethol o un ardal i'r llall er mwyn sicrhau bod y targedau yn berthnasol i ardaloedd penodol a'r lefel uchelgais yn briodol ar gyfer yr ardal dan sylw.
- Trafodwyd hefyd y byddai'n fuddiol darparu eglurder i'r defnyddiwr o ran pa feithrinfeydd sy'n rhai cyfrwng Cymraeg, rhai sy'n cael eu hystyried ddwyieithog ayb drwy gasglu ynghyd y data o arolygon ESTYN.
- Tynnwyd sylw at eithriadau megis Abertawe lle nad oes cylchoedd meithrin gan eu bod yn cynnig addysg statudol.

Addysg Statudol

- Pwysleisiwyd bod angen sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb yn y sector addysg.
- Holwyd a fyddai polisi gweithlu ym maes addysg arwahân i'r cynllun gweithredu.
- Tra bod rhaglenni datblygu proffesiynol yn bwysig i wireddu'r nodau, awgrymwyd bod angen newidiadau eraill mwy penodol a mwy sylweddol i wireddu'r math o newid mae gofyn amdano yn y maes.

Addysg Ôl-16

Cydnabuwyd pwysigrwydd sylw i addysg bellach. O gynyddu buddsoddiad yn y sector honno pwysleisiwyd na fedrid cymryd yn ganiataol y gallai'r ddarpariaeth yn y sector addysg uwch barhau heb gefnogaeth.

3.3 Thema 2 Defnyddio'r Gymraeg

Prif faterion:

- O ystyried y gofyn i'r strategaeth fod yn drawsnewidiol, awgrymwyd fod angen ystyried gwahaniaethu rhwng achosion lle gallai'r strategaeth roi hwb ychwanegol i wneud strategaethau eraill yn fwy effeithiol gydag achosion ble mae gofyn am newid ymyrraethau presennol yn llwyr. Sut mae modd cael sgwrs anodd gyda rhai o'r hen ymyrraethau a sut mae delio gyda heriau newydd anodd a gweithredu yn wahanol?
- Awgrymwyd hefyd bod lle i wahanaiethu rhwng gweithredu ar ran y llywodraeth a chamau gwahanol lle mae gofyn i gyrff a grymoedd eraill weithredu er mwyn bod yn effeithiol. Beth yw'r targedau a dulliau'r llywodraeth o ymwneud gydag actorion eraill? Ai cynllun a strategaeth llywodraeth yw hon neu ai strategaeth i Gymru? Beth yw'r arfau gellir eu defnyddio i wireddu'r ail?
- Trafodwyd heriau mesur deilliannau yng nghyd-destun y camau gweithredu sydd wedi eu pennu.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd paratoi'r gweithlu a datblygu capasiti i weithredu'r safonau ym maes gwasnaethau.
- Tynwyd sylw at gyrff trydydd sector o ran eu potensial i rymuso'r Gymraeg ond bod cyrff arweiniol ar lefel genedlaethol yn aml yn symbolaidd o ran gweithredu drwy'r Gymraeg. Ystyriwyd y byddai gosod rheidrwydd i gynnwys ac integreiddio'r Gymraeg mewn themau allweddol fel drifeintedd, cyfle cyfartal yn effeithiol i'r cyrff cenedlaethol a chyrff mwy lleol sy'n cael arian cyhoeddus mawr.
- Ystyriwyd bod gofyn meddwl am gapasiti Mentrau Iaith, nid yn unig sgiliau. Hefyd rhaid cydnabod y modd mae capasiti yn amrywio fesul cyd-destun, a'r gwahaniaeth rhwng modelau hefyd. Tra bod y mentrau wedi bod yn gweithio ar gynyddu capasiti ar

draws Cymru a darparu lefel o wasanaeth ymhob achos, ystyriwyd taw cryfder y mentrau yw ceisio ymateb i anghenion lleol yn ôl y sefyllfa, o Wynedd i Went.

3.4 Thema 3 Creu Amodau Ffafriol – Isadeiledd a Hinsawdd

Cymdeithas ac Economi

Prif Sylwadau:

- Dadleuwyd o fewn y pum mlynedd nesaf fod y Gogledd Orllewin yn wynebu cyfnod o newid cymdeithasol sylweddol yn sgil cyfuniad Brexit, Wylfa, rhanbarthau dinesig, llymdra a'r effaith ar gyrff cyhoeddus fyddai ag effeithiau pellgyrhaeddol. O'r herwydd, awgrymwyd bod angen cynllunio ar gyfer hyn ac argymhellwyd cael adroddiad arwahân ar sut mae'r gogledd orllewin am wynebu'r heriau.
- Awgrymwyd y byddai budd mewn ychwanegu cynllunio tir i'r drafodaeth hon oherwydd y goblygiadau i gartrefi.
- O ran yr elfen rhanbarthol, pwysleiswyd bod polisi rhanbarthol economaidd mewn ardaloedd eraill megis drwy'r rhanbarthau dinesig. Argymhellwyd bod gofyn ymateb drwy bolisi economaidd rhanbarthol gyda'r iaith Gymraeg yn ganolog iddo ar gyfer Gwynedd a Môn.
- Er pwysigrwydd y Gogledd Orllewin, awgrymwyd fod goblygiadau Brexit a newidiadau amaethyddol yn mynd i effeithio ar sefyllfa'r Gymraeg mewn ardaloedd eraill o Gymru hefyd, gan gynnwys yn agos at y ffin gyda Lloegr. Mae gofyn cydbwyso rhwng trafod un ardal a chydnabod yr un heriau mewn ardaloedd eraill.
- Y pwynt ehangach felly oedd bod tuedd i feddwl am cymdeithas/economi mewn rhannau penodol o Gymru. Yn ymarferol, mae ganddo'r gallu i ddylanwadu mewn rhannau eraill o Gymru hefyd, gan gynnwys o ran gwerth cymdeithasol a'r cyd-destun economaidd i benderfyniadau addysg Cymraeg. Yn yr un modd, a yw'n bosib cysylltu'r Gymraeg gyda datblygu cymunedol mewn rhannau eraill o Gymru yn y cyfeiriadau at gymunedau yn arwain?
-

Cymru a'r Byd

Prif Sylwadau:

- Ar hyn o bryd nid yw'r amcanion strategol a'r Camau Gweithredu yn cydfynd.
- Mae potensial i gysylltu gyda'r thema cymdeithas-economi o ran defnyddio'r Gymraeg i fuddion economaidd mewn cyd-destun rhyngwladol.
- Mae potensial i ystyried y diaspora yn rhyngwladol a dros y ffin yn Lloegr, gan gynnwys y rheiny sy'n gadael Cymru i astudio yn y brifysgol. Codwyd gwerth cynnwys cynlluniau i ddenu pobl nôl i Gymru, drwy gysylltiadau gyda'r thema cymdeithas / economi a photensial technoleg i gadw mewn cyswllt a gyda'r Gymraeg tra nad ydynt yng Nghymru.
- Croesewir y sylw i fewnfudo rhyngwladol yn hytrach na chanolbwyntio ar fewnfudo o Loegr i Gymru.
- Mae cyllid sylweddol yn mynd i gefnogi teuluoedd mewnfudol i ddysgu Saesneg. Ellid ystyried ail-drefnu hyn yng Nghymru i gael ei ddefnyddio i gyflwyno'r Gymraeg?
- Rhaid cofio hefyd bwysigrwydd mewnfudwyr mewn rhai sectorau megis gweithio mewn cartrefi gofal a gellir cynyddu'r pwyslais ar hyn yn y strategaeth. Oes modd cysylltu hefyd gyda datblygiadau ym maes gofal / iechyd, er enghraifft o ran dementia?

Newid ymddygiad

Prif Sylwadau:

- Tynnwyd sylw at bwysigrwydd deall newid ymddygiad fel amcan a dull i weithredu. Gellir meddwl am newid ymddygiad fel ymyrraeth, ond mae modd hefyd i droi'r

chwyddwydr ar weithredoedd a bod yn fwy uchelgeisiol o ran beth a wneir yn y gwaith ac ymagweddu mewn ffordd chwyldroadol at y Gymraeg. Tra tueddir i'w gysylltu gyda thema 3 o ran hinsawdd, mae dull egwyddorion newid ymddygiad yn cael eu cynnwys drwyddi draw ac mae modd ehangu hyn e.e. hyblygrwydd targedau gwahanol ar gyfer gwahanol rannau o Gymru, cynulleidfaoedd gwahanol a 'levers' gwahanol ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol. Codwyd y cwestiwn felly a ddylai fod yn rhan o'r sylfeini cysyniadol ynteu yn gynsail ar gyfer gweithredu drwyddi draw.

- Nodwyd nad yw'r cyswllt rhwng codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad ddim o reidrwydd yn un uniongyrchol.

3.5 Pwyntiau Cyffredinol

- Mae angen peidio ag anghofio yr henoed yn y strategaeth a'r cynllun gwithredu. Ydi'r syniad cwrs bywyd yn gallu cael ei gynnwys a chyfrannu at ffurfio'r cynllun gweithredu?
- Oes risg mewn gwneud y pethau cyfarwydd yn hytrach nag ymateb i bethau o ran sut mae pobl byw?
- Mae bylchau yn ein dealltwriaeth o sut mae pobl yn ymddwyn mewn peuoedd gwahanol, y dylanwadau a'r graddau mae defnydd mewn un pau yn dylanwadu ar beuoedd eraill e.e. effaith fel person proffesiynol ar ddewisiadau hamdden, teuluol. Byddai data ac ymchwil ar ddeall patrymau iaith ar lefel mwy soffistigedig yn ddefnyddiol tu hwnt er mwyn ceisio dylanwadu arnynt.
- O ran cynllunio lleol/ rhanbarthol, byddai modd edrych yn sirol a falle rhagor o gefnogaeth i ardaloedd o ddwysedd uchel. Er bod cynlluniau gweithredu iaith heb weithio mewn rhai achosion, efallai gellid rhoi mwy o flaenoriaeth i un ardal, megis cynllun Dyffryn Aman / Cwm Tawe.
- Tra gwerthfawrogwyd pam nad oedd y targedau yn hynod uchelgeisiol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, argymhellwyd gosod targed o ran nifer o siaradwyr i bob awdurdod lleol er mwyn bod yn fwy hyderus a phendant ac iddyn nhw ddeall pa rôl sydd ganddynt i'w chwarae mewn gwireddu'r strategaeth. Byddai hyn yn galluogi i'r targed amrywio o ardal i ardal gydag ymyrraethau'n ymateb i'r sefyllfa/heriau yn yr ardal benodol honno. Pwynt pellach oedd pwysigrwydd targedau o ran niferoedd a defnydd er mwyn ceisio rhoi mwy o bwyslais ar y defnydd.
- Gellid creu mwy o eglurder a dealltwriaeth am rolau sectorau penodol mewn gweithredu o ran pwy sy'n ymwneud ac yn gyfrifol am weithredu polisiau penodol. Yn syml, sut mae gwneud yn eglur taw nid strategaeth ar gyfer swyddogion iaith ydyw a bod angen bod yn glir o'r gynulleidfa. Yn yr un modd, gellid bod yn fwy eglur o ran gweithrediad a'r neges drawsnewidiol o ran beth sy'n wahanol a beth mae'r strategaeth yn ei olygu e.e. i arweinwyr awdurdodau lleol.
- Awgrymwyd dylai'r Safonau a'r Ddeddf Llesiant fod yn arfau effeithiol ond bod risg bod awdurdodau yn gweithio mewn silos yn fewnol – e.e. addysg a iaith. Adnabuwyd bod hyfforddiant yn bwysig o ran cydweithio o ran awdurdodau lleol.